Ministry of Justice
Gweinyddiaeth Cyfiawnder

# Gwybodaeth i ddioddefwyr am y Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr, y Tribiwnlys Iechyd Meddwl a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru

Mae’r Tribiwnlys Iechyd Meddwl a Thribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru (y cyfeirir at y ddau fel ‘y Tribiwnlys’) yn adolygu’n rheolaidd y broses o gadw cleifion dan gyfyngiadau i sicrhau eu bod yn derbyn y gofal priodol, a bod y cyhoedd yn parhau i fod yn ddiogel.[1]

Gall cleifion wneud cais am wrandawiad Tribiwnlys unwaith y flwyddyn. Os nad yw'r claf na'i gyfreithiwr yn gwneud cais am dair blynedd, bydd yr Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) yn atgyfeirio’r claf at y Tribiwnlys. Dim ond yn dilyn penderfyniad gan y Tribiwnlys neu’r Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl (MHCS) ar ran yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder y gellir rhyddhau cleifion dan gyfyngiadau.[2]

Fel dioddefwr neu aelod o'r teulu sydd wedi colli rhywun ac sydd wedi dewis ymuno â'r Cynllun Cyswllt i Ddioddefwyr[3], mae gennych hawl i gael gwybod am yr adolygiadau hyn a chael y cyfle i gymryd rhan. Gallwch chi ofyn am weithredu amodau rhag ofn y caiff y claf ei ryddhau er mwyn eich helpu i deimlo’n fwy diogel. Gallwch chi hefyd gyflwyno Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr i egluro effaith y drosedd arnoch chi, y gall y Tribiwnlys ei ystyried wrth bennu amodau rhyddhau.

Bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn eich cefnogi drwy gydol y broses hon. Os oes gennych chi unrhyw bryderon neu os oes angen cymorth arnoch chi, maen nhw ar gael i helpu.

## Pa amodau rhyddhau y gellir eu cymhwyso

Os yw’r Tribiwnlys yn penderfynu rhyddhau’r claf, gallant ddewis rhoi amodau rhyddhau ar waith, fel y gofynion canlynol:

- cysylltu â’u meddyg a’u Goruchwylydd Cymdeithasol,
- cymryd meddyginiaeth,
- byw mewn cyfeiriad penodol,

[1] Troseddwyr ag anhwylder meddwl yw cleifion dan gyfyngiadau sy'n cael eu cadw yn yr ysbyty i gael triniaeth ac sy'n destun rheolaethau arbennig gan yr Ysgrifennydd Cyfiawnder oherwydd lefel y risg maen nhw'n ei beri.

[2] Mae'r wybodaeth hon yn ymwneud â'r hyn sy'n digwydd yn y Tribiwnlys. I gael gwybodaeth am benderfyniadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Gwladol, siaradwch â'ch Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr.

[3] https://www.gov.uk/government/publications/get-support-as-a-victim-of-crime/information-about-the-victim-contact-scheme

- cyflwyno profion cyffuriau neu alcohol ar hap lle mae cyffuriau neu alcohol wedi cyfrannu at eu salwch meddwl.

Drwy’r Cynllun Cyswllt i Ddioddefwyr, gallwch chi ofyn am amodau sy'n berthnasol i chi. Er enghraifft, gallai'r rhain gynnwys gofynion i:

- leihau'r siawns y byddwch chi'n dod ar draws y claf yn y gymuned drwy ardal dan waharddiad; neu
- eu hatal rhag cysylltu â chi neu aelodau o'ch teulu.

Bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn eich cefnogi i wneud sylwadau ynglŷn â’r amodau yr hoffech i'r Tribiwnlys eu rhoi ar waith wrth ryddhau'r claf.

## Sut i wneud Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr

Gallwch chi ysgrifennu Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr unrhyw bryd cyn adolygiad y claf, a rhaid cyflwyno hwn 28 diwrnod cyn gwrandawiad. Bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn sicrhau eich bod yn gwybod pryd i gyflwyno eich Datganiad.

Gallwch chi gyflwyno'r un Datganiad bob tro y mae'r Tribiwnlys yn ystyried rhyddhau, neu gallwch chi benderfynu gwneud un newydd bob tro. Ar ôl i chi gyflwyno Datganiad ar gyfer gwrandawiad, gallwch chi ofyn am gyflwyno Datganiadau pellach cyn y dyddiad cau i ychwanegu gwybodaeth ychwanegol.

## Beth i’w ysgrifennu mewn Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr

Bydd eich Datganiad Effaith ar Ddioddefwyr yn egluro’r effaith y mae’r drosedd wedi’i chael arnoch chi. Mae hyn yn rhoi llais i chi ym mhroses y Tribiwnlys ac yn rhoi cyd-destun defnyddiol i'r Tribiwnlys ar gyfer unrhyw geisiadau rydych chi wedi'u gwneud am amodau rhyddhau. Er enghraifft, efallai yr hoffech chi sôn am:

- unrhyw anaf corfforol, ariannol, emosiynol neu seicolegol rydych chi wedi'i ddioddef a/neu unrhyw driniaeth a gawsoch chi o ganlyniad i'r drosedd;
- os ydych chi'n teimlo'n agored i niwed neu’n ofnus;
- os nad ydych chi'n teimlo'n ddiogel mwyach;
- yr effaith ar eich teulu;
- sut mae ansawdd eich bywyd wedi newid o ddydd i ddydd.

Rydyn ni’n cydnabod y gallech chi barhau i gael eich effeithio gan y drosedd a gyflawnwyd gan y claf, ac yn deall y gall fod yn anodd iawn ailymweld ag effaith y drosedd arnoch chi wrth wneud Datganiad. Byddwch yn cael cymorth eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr i ysgrifennu eich Datganiad, ond mae'n bwysig gwybod nad oes rhaid i chi wneud Datganiad os nad ydych chi eisiau neu os nad ydych chi'n teimlo eich bod chi'n gallu gwneud hynny. P'un a ydych chi'n dewis gwneud Datganiad ai peidio, gallwch chi dal wneud cais i weithredu amodau rhyddhau.

Yn ddealladwy, efallai bod gennych chi deimladau cryfion ynglŷn â'r posibilrwydd y bydd y claf yn cael ei ryddhau, ond dylech chi wybod na all y Tribiwnlys ystyried y rhain wrth benderfynu. Mae hyn oherwydd wrth benderfynu a ddylid rhyddhau'r claf, rhaid i'r Tribiwnlys ddefnyddio meini prawf ar gyfer cadw sy’n seiliedig ar iechyd meddwl y claf a'r risg iddyn nhw eu hunain ac eraill.

Os oes gennych chi wybodaeth am unrhyw risg y gallai'r claf ei chyflwyno os cânt eu rhyddhau, dylech chi rannu hyn gyda'ch Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr ar wahân i wneud

eich Datganiad a byddant yn sicrhau bod hyn yn cael ei rannu gyda'r gweithwyr proffesiynol perthnasol.

## Pwy fydd yn gweld eich Datganiad

Bydd pob papur a gyflwynir i wrandawiadau'r Tribiwnlys, gan gynnwys eich Datganiad, yn rhan o'r hyn a elwir yn 'ffeil yr achos'. Bydd y Tribiwnlys, Adran Gwaith Achos Iechyd Meddwl a chyfreithiwr y claf yn gallu gweld y ffeil hon. Bydd ffeil yr achos yn rhan o gofnodion meddygol y claf, felly gall eu tîm meddygol hefyd weld y Datganiad os ydynt o'r farn ei fod yn berthnasol i driniaeth y claf.

Fel arfer, bydd y claf yn gweld yr holl wybodaeth sy'n gysylltiedig ag adolygiad y Tribiwnlys oni bai, mewn amgylchiadau eithriadol iawn, bod y Tribiwnlys yn penderfynu peidio â'i datgelu i'r claf.

## Beth os nad ydych chi eisiau i'r claf weld eich Datganiad

Gallwch chi wneud cais drwy eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr i'r Tribiwnlys atal y claf rhag gweld eich Datganiad. Gelwir hyn yn 'peidio â datgelu'.

Dim ond os yw'r Tribiwnlys yn fodlon y byddai datgelu i'r claf yn debygol o achosi niwed difrifol i'r claf neu rywun arall a'i bod yn gymesur iddyn nhw atal yr wybodaeth hon rhag y claf y rhoddir caniatâd i beidio â datgelu. Felly, mae'n debygol y bydd y claf yn gweld eich Datganiad.

Gallwch chi hefyd ofyn am dynnu'r Datganiad yn ôl os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu y dylid ei ddatgelu. Os rhoddir caniatâd i beidio â datgelu, yna bydd y Datganiad yn cael ei ychwanegu at ffeil yr achos, ond ni fydd y claf yn ei weld cyn y gwrandawiad.

Sylwer, gan fod y Tribiwnlys yn gorff barnwrol, mae'n bosib y gall Barnwr benderfynu peidio â thynnu eich Datganiad yn ôl neu, ar ddiwrnod y gwrandawiad, y dylid datgelu'r Datganiad, hyd yn oed os cytunwyd i beidio â datgelu yn y lle cyntaf.

## Darllen eich Datganiad mewn gwrandawiad

If the Tribunal decide to hold a hearing, you will be informed about this. You can apply to Os yw'r Tribiwnlys yn penderfynu cynnal gwrandawiad, cewch wybod am hynny. Gallwch chi wneud cais i ddarllen eich Datganiad yn uchel, a fydd yn cael ei wneud o bell. Mae gennych chi sawl opsiwn o ran sut hoffech chi i'r Datganiad gael ei glywed. Gallwch chi wneud cais i wneud y canlynol:

- mynychu i'w ddarllen yn uchel eich hun;
- cael eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr i'w ddarllen ar eich rhan;
- gwneud recordiad o'ch Datganiad ymlaen llaw a fydd yn cael ei chwarae yn y gwrandawiad gan eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr, lle bo'r cyfleusterau hyn ar gael. Os ydych chi'n dewis yr opsiwn hwn, bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn eich helpu i'w recordio cyn y gwrandawiad.

Rhaid i'r Tribiwnlys gymeradwyo cais i ddarllen eich Datganiad yn uchel mewn gwrandawiad, oni bai bod rheswm da dros beidio â gwneud hynny. Os na fyddant yn cymeradwyo eich cais, bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn dweud pam wrthych chi.

Os yw’r Tribiwnlys yn cytuno i’ch cais, byddwch yn mynychu o bell ar ddechrau'r gwrandawiad at ddiben darllen eich Datganiad. Bydd gweddill y gwrandawiad yn cael ei gynnal yn breifat oherwydd ei fod yn ymwneud â manylion iechyd a thriniaeth y claf.

Bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr yn eich helpu i recordio eich Datganiad ymlaen llaw neu’n rhannu cyfarwyddiadau ar sut i ymuno â’r gwrandawiad o bell, naill ai o’ch cartref neu o’ch swyddfa prawf leol. Fel arfer, bydd eich Swyddog Cyswllt â Dioddefwyr fel arfer gyda chi yn y naill leoliad neu'r llall am gymorth. Gallwch chi hefyd gael aelod o'r teulu, ffrind neu eiriolwr i eistedd gyda chi i'ch cefnogi tra byddwch chi'n darllen eich Datganiad yn y gwrandawiad.